



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Siarter y Tystion

Safonau gofal ar gyfer tystion
yn y system cyfiawnder
troseddol



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Siarter y Tystion

Safonau gofal ar gyfer tystion
yn y system cyfiawnder
troseddol

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Crynodeb o brif safonau gofal ar gyfer tystion	2
Mesurau Arbennig ar gyfer tystion bregus a dan fygythiad	4
Map o daith y tyst	6
Safonau gofal ar gyfer tystion	8
Ymchwiliad yr Heddlu Safonau 1 - 6	8
Gwybodaeth cyn y treial Safonau 7 - 9	10
Mynd i'r Llys Safonau 10 - 11	12
Yn y llys – ar ôl cyrraedd Safonau 12 - 14	13
Yn y llys – yn ystafell y llys Safonau 15 - 16	15
Ar ôl y treial Safonau 17 - 21	16
Geirfa o Dermau Defnyddiol	18

Cyflwyniad

Mae Siarter y Tystion yn amlinellu'r safonau gofal y gallwch eu disgwyl os ydych yn dyst i drosedd neu ddigwyddiad yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Siarter hon yn berthnasol i bawb sy'n dyst i drosedd neu dystion i gymeriad ond nid i dystion arbenigol.

Fel tyst, rydych yn helpu i sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei wneud. Os gwyddoch rywbeth am ddigwyddiad efallai y gofynnir i chi roi tystiolaeth yn y llys dros yr erlyniad neu'r amddiffyniad. Os ydych yn adnabod un o'r bobl sy'n gysylltiedig ag achos, efallai y gofynnir i chi roi tystiolaeth fel tyst i gymeriad, fel arfer gan yr amddiffyniad. Yn y naill achos neu'r llall, gall eich tystiolaeth fod yn hollbwysig i sicrhau collfarn neu gael y diffynnydd yn ddieuog.

Mae'r Siarter hon yn rhoi sylw i dystion yr erlyniad a'r amddiffyniad ac mae'n nodi pa gymorth a chefnogaeth y gallwch ei ddisgwyl ym mhob cam o'r broses gan bob darparwr gwasanaeth sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol. Y darparwr gwasanaeth dan sylw yn y Siarter yw'r heddlu¹, Gwasanaeth Erlyn y Goron, staff yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM), y Gwasanaeth Tystion a chyfreithwyr yr amddiffyniad. Nid yw gwaith y barnwyr a'r ynadon wedi ei gynnwys.

Er nad yw'r safonau sydd yn y Siarter hon yn gyfreithiol rwymol, maent yn nodi'r lefel gwasanaeth y gallwch ei disgwyl fel tyst. Mewn amgylchiadau lle nad yw

darparwr gwasanaeth yn gallu cyrraedd safon, dylech gael gwybod hon a gwneir ymdrechion i ddiwallu eich anghenion. Dylai pawb sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol eich trin yn barchus, mewn ffordd sensitif a phroffesiynol, heb unrhyw fath o wahaniaethu.

Os ydych wedi dioddef trosedd ac y galwyd arnoch i fod yn dyst, mae gennych hawliau cyfreithiol sydd wedi eu nodi yn y Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Trosedd (Cod y Dioddefwyr).

Os ydych yn rhiant neu'n warcheidwaid i blentyn sy'n dyst, mae gwybodaeth am y broses hon ar gael yn y Pecyn Tystion Ifanc. Bydd darparwyr gwasanaeth yn rhoi copi o'r pecyn hwn i chi neu'n dweud wrthyhch lle gallwch gael gafael ar gopi ohono.

Nodwch: mae esboniad o'r prif eiriau yn y Siarter yn yr Eirfa ar y diwedd.

¹ Mae pob cyfeiriad a wneir at yr heddlu drwy'r Siarter yn berthnasol i'r holl asiantaethau sy'n gorfodi'r gyfraith, os yw'n berthnasol

Crynodeb o brif safonau gofal ar gyfer tystion

- Byddwch yn cael eich trin ag urddas a pharch bob amser gan bob un o'r darparwyr gwasanaeth y byddwch yn dod i gysylltiad â hwy yn y system cyfiawnder troseddol (*safon 1*).
- Bydd gennych brif bwynt cyswllt ym mhob cam o'r broses. Yn ogystal â chael gwybodaeth am gynnydd yr achos, bydd eich pwynt cyswllt yn eich helpu trwy'r broses neu'n eich cyfeirio at yr asiantaethau cymorth perthnasol (*safonau 7 a 19*).
- Bydd yr heddlu'n cynnal asesiad cychwynnol o'ch anghenion. Os bydd angen i chi roi tystiolaeth yn y llys, bydd yr Uned Gofal Tystion, yr heddlu neu gyfreithiwr yr amddiffyniad yn cynnig asesiad anghenion llawn lle y bo'n briodol. Mae'r asesiadau hyn yn dangos unrhyw gymorth y gallai fod ei angen arnoch i roi tystiolaeth yn ystod yr ymchwiliad neu yn y llys, yn cynnwys unrhyw fesurau arbennig y gallai fod eu hangen arnoch os ydych yn dyst bregus neu dan fygythiad (*safonau 3 a 8*).
- Dylai ceisiadau am fesurau arbennig gael eu gwneud ar eich rhan i'r llys mewn da bryd, ac os cymeradwyir hwy, dylent fod ar gael pan ydych yn rhoi eich tystiolaeth yn y llys (*adran mesurau arbennig*).
- Wrth drefnu'r dyddiad y byddwch yn rhoi tystiolaeth dylid rhoi ystyriaeth i'r dyddiadau yr ydych ar gael. Dylech aros cyn lleied â phosibl i roi tystiolaeth yn y llys, ac os yw'n bosibl, ni ddylai fod yn fwy na dwy awr (*safonau 9 a 13*).
- Cymerir mesurau yn y llys i sicrhau ei fod yn amgylchedd diogel i bawb ac i sicrhau bod tystion yr erlyniad, tystion yr amddiffyniad a'u teulu a'u ffrindiau'n aros mewn mannau ar wahân (*safon 14*).
- Rhoddir gwybodaeth i chi (neu fanylion ynglŷn â lle i gael yr wybodaeth) am y llys a phroses y llys cyn rhoi tystiolaeth fel eich bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl (*safon 11*).

- Gallwch ymweld â'r llys cyn y treial a chewch eich tywys o gwmpas gan y Gwasanaeth Tystion. Mae ymweliadau cyn y treial yn gymorth mawr i dystion y caniatwyd mesurau'r arbennig iddynt oherwydd bydd modd iddynt gael syniad sut y gweithredir y mesurau hynny ymlaen llaw (*safon 11*).
- Gallwch atgoffa eich hun o'r hyn a ddywedwyd gennych yn eich datganiad neu mewn tystiolaeth a recordiwyd ar fideo cyn rhoi tystiolaeth yn y llys (*safon 5*).
- Gallwch hawlio costau teithio yn ôl a blaen i'r llys ac iawndal am golli enillion o ganlyniad i fynychu'r llys. Nid yw hyn yn berthnasol i dystion i gymeriad ar gyfer yr amddiffyniad (*safon 20*).
- Fel tyst i'r erlyniad, cewch wybod am unrhyw apêl yn erbyn collfarn a/neu ddedfryd. Os gofynnir i chi roi tystiolaeth bellach mewn apêl, bydd y safonau perthnasol yn y Siarter y Tystion (*safon 18*) yn dal yn berthnasol i chi a
- Gallwch gwyno os nad ydych yn hapus â lefel y gwasanaeth a gewch gan unrhyw ddarparwr gwasanaeth y cyfeirir ato yn y Siarter hon (*safon 21*).

Mesurau arbennig ar gyfer tystion bregus a dan fygythiad

Pwy sy'n gymwys

Mae gennych hawl i fesurau arbennig i'ch helpu i roi eich tystiolaeth orau os ydych yn cael eich ystyried yn dyst bregus neu dan fygythiad.

Mae pawb sydd o dan 18 oed yn cael ei ystyried yn dyst **bregus**. Gallech hefyd gael eich ystyried yn fregus os: yw ansawdd eich tystiolaeth yn debygol o gael ei effeithio o ganlyniad i anhwylder meddyliol (o fewn ystyr Deddf Iechyd Meddwl 1983); bod gennych nam sylweddol o ran deallusrwydd a'r gallu i ryngweithio'n gymdeithasol; neu os oes gennych anabledd corfforol neu os ydych yn dioddef o anhwylder corfforol.

Rydych yn cael eich ystyried yn awtomatig yn dyst **dan fygythiad** os ydych wedi dioddef trais rhywiol neu fasnachu mewn pobl, neu os ydych yn dyst i drosedd yn ymwneud â gwn neu gylllell. Beth bynnag fo natur y trosedd, gallech hefyd gael eich ystyried yn dyst dan fygythiad os yw ansawdd eich tystiolaeth yn debygol o gael ei effeithio gan fod arnoch ofn neu'n pryderu ynglŷn â rhoi tystiolaeth yn y llys.

Mathau o fesurau

Dylai mesurau arbennig gael eu teilwra ar sail eich anghenion fel y gallwch roi eich tystiolaeth orau yn ystod cyfweiliad â'r heddlu neu yn y llys. Mae mesurau arbennig yn cynnwys:

- rhoi tystiolaeth o du ôl i sgrin o gwmpas blwch tystion yn ystafell y llys.
- rhoi tystiolaeth y tu allan i ystafell y llys trwy ddolen fideo fyw (weithiau gwneir hyn i ffwrdd o adeilad y llys).
- recordio eich datganiad ar fideo, a'i chwarae wedyn yn y llys.
- bod ynadon a chyfreithwyr yn tynnu wigiau a gynnu.
- cymorth Canolwr Cofrestredig i'ch helpu i ddeall y cwestiynau a ofynnir i chi yn ystod cyfweiliad â'r heddlu neu yn y llys, ac i ateb yn gywir (arbenigwyr cyfathrebu yw Canolwyr Cofrestredig, sy'n gallu helpu dioddefwyr a thystion sy'n cael trafferth cyfathrebu. Nid ydynt yn ddehonglwyr) a

- rhoi tystiolaeth yn breifat - gellir sicrhau bod yr oriel gyhoeddus yn wag mewn achos sy'n ymwneud â throsedd rhywiol, masnachu mewn pobl, neu mewn achosion eithriadol lle mae'r llys yn fodlon y gallai rhywun heblaw'r sawl a gyhuddir geisio bygwth y tyst.

Asesu eich anghenion


Mae'r heddlu, yr Uned Gofal Tystion a chyfreithwyr yr erlyniad/amddiffyniad yn gyfrifol am ganfod, yn gynnar a thrwy gydol y broses, a ydych yn dyst bregus neu dan fygythiad. Hefyd maent yn gyfrifol am drafod gyda chi a fydddech yn gallu elwa ar unrhyw fesurau arbennig. Os ydych yn credu y gallai unrhyw un o'r mesurau arbennig eich helpu wrth roi tystiolaeth, mae'n bwysig eich bod yn dweud wrth un o'r darparwr gwasanaeth uchod cyn gynted â phosibl.

Mae'r erlyniad neu'r amddiffyniad yn gyfrifol am wneud cais prydlon am fesurau arbennig i'r llys cyn yr achos llys. Yna bydd y barnwr neu'r Fainc yn penderfynu a ddylai'r mesurau hynny fod ar gael i chi a chewch eich hysbysu o ganlyniad y cais am fesurau arbennig.

Os yw'r barnwr neu'r Fainc wedi cymeradwyo cais am un neu fwy o fesurau arbennig i'ch helpu i roi tystiolaeth, bydd staff y llys yn sicrhau bod y mesur(au) ar gael i chi ac yn eich cynorthwyo fel y bo angen ar y diwrnod yn y llys.

- Bu John, sy'n 17 oed, yn dyst i ddamwain car a achoswyd gan yrru di-hid. Mae ganddo fân anawsterau dysgu ac nid oedd yn hyderus y byddai'n gallu rhoi ei dystiolaeth orau yn ystod cyfweiliad â'r heddlu. I'w helpu i oresgyn ei anawsterau, darparwyd Canolwr Cofrestredig ar ei gyfer i sicrhau eu bod yn deall y cwestiynau a ofynnid iddo ac i'w helpu i gyfleu'r atebion a roddodd.
- Bu Jasmine yn dyst i ladrad arfog a theimlai dan fygythiad wrth feddwl am y diffynnydd yn ei gweld yn rhoi ei thystiolaeth. I oresgyn hyn, gosodwyd sgriniau o gwmpas y blwch tystion fel na allai'r diffynnydd ei gweld a rhag iddi hithau weld y diffynnydd tra oedd yn rhoi tystiolaeth.
- Roedd Jane wedi dioddef twyll. Roedd yn fregus oherwydd bod ganddi rai problemau cyfathrebu oherwydd ei hiechyd meddwl gan gynnwys pryder ac anhwylder obsesiynol cymhellol. I'w helpu i oresgyn yr anawsterau hyn, roedd yn gallu rhoi tystiolaeth o bell trwy ddolen fyw a gyda chymorth Canolwr Cofrestredig i sicrhau ei bod yn deall y cwestiynau a ofynnid iddi ac i'w helpu i gyfleu ei hatebion.

Taith tyst a'r safonau gofal sy'n berthnasol i bob cam



Safonau gofal ar gyfer tystion

Ymchwiliad yr heddlu

Safon 1: Sicrhau triniaeth deg

Fel tyst, byddwch yn cael eich trin yn deg a gyda pharch yn unol â'ch anghenion, waeth beth fo eich hil, eich crefydd, eich cefndir, eich rhyw, eich oed, eich rhywioldeb neu unrhyw anabledd. Os oes angen, bydd cymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu a gwneir unrhyw addasiadau rhesymol i sicrhau bod mynediad teg i wybodaeth a gwasanaethau cymorth. Gallai hyn gynnwys defnyddio cyfieithydd, dolen sain ac addasiadau hygyrchedd.

Safon 2: Riportio trosedd neu ddigwyddiad

Os ydych yn riportio trosedd neu ddigwyddiad arall, bydd angen i'r heddlu sicrhau eu bod yn:

- deall yr hyn yr ydych yn ei ddweud wrthynt a'ch bod chi'n deall beth maent yn ei ddweud wrthynt chi;
- esbonio sut byddant yn delio â'r mater; rhoi gwybod i chi oddeutu faint o amser y bydd hyn yn ei gymryd; a
- rhoi cyfeirnod neu rif trosedd i chi a manylion person cyswllt ar gyfer ymholiadau pellach.

Safon 3: Gwneud datganiad

Bydd yr heddlu'n penderfynu a fyddant yn gofyn i chi roi datganiad a dod yn dyst i'r erlyniad. Mae rhoi datganiad yn weithred wirfoddol, er mae'n dal yn bosibl y gofynnir i chi roi tystiolaeth os nad ydych yn gwneud datganiad.

Os byddwch yn cael eich enwi fel tyst posibl i'r amddiffyniad, efallai y gofynnir i chi wneud datganiad i gyfreithiwr y diffynnydd ac mewn rhai amgylchiadau, efallai bydd yr heddlu'n gofyn i chi wneud datganiad. Bydd yr heddlu neu gyfreithiwr yr amddiffyniad yn ceisio trefnu cyfieithydd neu Ganolwr Cofrestredig i chi os bydd angen, i'ch helpu i roi tystiolaeth.

Pan fyddwch yn gwneud datganiad ysgrifenedig, bydd y person sy'n ei gymryd yn:

- esbonio pwrpas y datganiad, ystyried pa gymorth sydd ei angen arnoch i wneud y datganiad ac esbonio beth fydd yn digwydd nesaf, yn cynnwys atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Tystion os yw'r achos yn debygol o fynd i'r llys.
- sicrhau eu bod yn deall beth yr ydych yn ei ddweud wrthynt a bod hyn yn cael ei gofnodi'n gywir.
- rhoi cyfle i chi ei ddarllen er mwyn gwirio ei fod yn gofnod cywir, neu

ofyn i rywun arall ddarllen eich datganiad i chi ar ôl i chi ei gwblhau.

- newid unrhyw bethau anghywir yr ydych yn tynnu sylw atynt.
- ychwanegu unrhyw wybodaeth bellach yr ydych eisiau ei chynnwys a
- gofyn i chi arwyddo eich datganiad i gadarnhau eich bod yn cytuno â'r hyn sydd wedi ei gofnodi ynddo.

Gall tystion o dan 18 oed a phob tyst bregus a dan fygythiad wneud cais i'w datganiad gael ei recordio ar fideo.

Mewn achosion o'r fath, bydd y person sy'n cymryd y datganiad yn sicrhau bod ansawdd y recordiad yn ddigon da i'w ddefnyddio yn y llys fel tystiolaeth os bydd angen. Efallai y bydd yn dal angen i chi fynd i'r llys i gael eich cwestiynu ynglŷn â'ch tystiolaeth. Mewn achosion o'r fath, gellid defnyddio mesurau arbennig i'ch cynorthwyo (gweler yr adran 'Mesurau Arbennig').

Os ydych yn ddiodefwr, mae hawl gennych i wneud Datganiad Personol Dioddefwr yr un pryd ag yr ydych yn gwneud eich datganiad (ac mewn rhai achosion ar ôl hynny). Mae hyn yn rhoi cyfle i chi egluro yn eich geiriau eich hun sut mae trosedd wedi effeithio arnoch chi, boed yn gorfforol, yn emosiynol, yn ariannol neu mewn unrhyw ffordd arall. Mae mwy o wybodaeth ar gael yng Nghod y Dioddefwyr.

Safon 4: Asesiad anghenion cychwynnol gan yr heddlu

Os ydych yn darparu datganiad i'r heddlu, byddant yn cynnal asesiad cychwynnol

o'ch anghenion fel tyst. Bydd hyn yn cynnwys pryd a sut y gellir cysylltu â chi a pha anghenion sydd gennych o safbwynt iaith a chyfathrebu.

Hefyd bydd yr heddlu'n asesu i weld a ydych yn dyst bregus neu dan fygythiad ac yn cael eich barn ynglŷn â mesurau arbennig a allai eich helpu i roi eich tystiolaeth orau yn ystod yr ymchwiliad a'r cam yn y llys, er enghraifft cael cymorth Canolwr Cofrestredig (gweler yr adran 'Mesurau Arbennig'). Hefyd byddant yn ystyried pa drefniadau eraill sydd eu hangen arnoch a phryd yr ydych ar gael i fynd i'r llys.

Defnyddir eich gwybodaeth i benderfynu sut bydd yr ymchwiliad i'r achos yn mynd rhagddo ac i sicrhau y gwneir trefniadau i ddiwallu eich anghenion os gelwir arnoch i roi tystiolaeth yn y llys. Bydd yr wybodaeth yn cael ei throsglwyddo i gyfreithiwr yr amddiffyniad os gelwir arnoch i fod yn dyst dros yr amddiffyniad ac i Uned Gofal Tystion os byddwch yn dyst dros yr erlyniad.

Safon 5: Ar ôl rhoi datganiad

Unwaith y byddwch wedi arwyddo eich datganiad, ni ellir newid y cynnwys. Ond, os bydd angen newid neu ychwanegu rhywbeth yn ddiweddarach gallwch wneud datganiad arall.

Oni bai ei fod yn berthnasol i'r achos, bydd eich manylion personol ond yn cael eu rhannu ag asiantaethau cyfiawnder troseddol a sefydliadau cymorth perthnasol. Gofynnir am eich caniatâd i'r wybodaeth hon gael ei rhannu'n ehangach, oni bai ei fod yn ofyniad cyfreithiol. Os ydych chi'n dyst dros

yr amddiffyniad mae'n rhaid rhannu'ch manylion personol â'r diffynnydd, ond dim ond gyda'ch caniatâd chi y byddant yn cael eu rhannu â rhagor o bobl.

Os bydd eich achos yn mynd i'r llys, cewch gyfle i atgoffa eich hun o'r hyn a ddywedwyd gennych yn eich datganiad neu gyfweiliad fideo cyn i chi roi tystiolaeth lafar.

Byddwch yn cael eich diweddarau'n rheolaidd gan yr heddlu ynglŷn â'r cynnydd yn ystod ymchwiliad i drosedd difrifol. Os yw'r trosedd yn llai difrifol, bydd yr heddlu'n rhoi manylion cyswllt i chi allu gwybod pa gynnydd y mae'r ymchwiliad wedi ei wneud. Cewch eich hysbysu ynglŷn â chasgliad yr ymchwiliad (e.e. cyhuddiad, rhybudd). Os ydych wedi rhoi datganiad i gyfreithiwr yr amddiffyniad, gallwch eu holi ynglŷn â chynnydd yr achos.

Safon 6: Gweithredu os bydd tyst dan fygythiad

Dylai tystion i'r erlyniad a'r amddiffyniad ddwyn sylw'r heddlu'n syth at unrhyw fygythiad - neu risg o fygythiad - a bydd yr heddlu'n cynnal ymchwiliad ac yn cymryd camau priodol i sicrhau eich bod yn ddiogel. Hefyd bydd yr heddlu'n ceisio gweld a ydych mewn risg o fygythiad. Er ei fod yn brin, mae bygwth tyst dros yr erlyniad neu'r amddiffyniad yn drosedd difrifol.

Os ydych yn dyst i'r erlyniad sydd wedi cael eich bygwth neu mewn risg o gael eich bygwth:

- bydd yr heddlu'n hysbysu'r erlyniad os oes gennych chi bryderon am

ganiatáu mechniaeth neu os oes gan y diffynnydd hanes o fygwth tystion; a

- bydd yr erlyniad yn ystyried pa fesurau ychwanegol a allai fod yn briodol ar adeg cyhuddo'r diffynnydd a thrwy gydol y cyfnod hyd at y treial.

Dylech bob amser ffonio 999 os ydych yn meddwl eich bod mewn perygl ar y pryd.

Gwybodaeth cyn y treial

Safon 7: Cael eich diweddarau ynglŷn â chynnydd yr achos ar ôl i unigolyn gael ei gyhuddo

Os ydych yn dyst dros yr erlyniad i unrhyw drosedd, bydd yr heddlu neu'r Uned Gofal Tystion yn cysylltu â chi ar ôl y gwrandawriad cyntaf yn y llys i roi gwybod beth yw'r canlyniad. Cewch wybod beth sy'n digwydd nesaf, dyddiad y treial a lleoliad y llys. Cewch wybodaeth lawn am gynnydd yr achos unwaith y bydd y diffynnydd wedi ei gyhuddo.

Bydd yr heddlu'n rhoi gwybod i chi pryd mae'r diffynnydd wedi ei gyhuddo, a yw wedi ei ryddhau ar fechniaeth i fynychu'r llys neu wedi ei gadw yn y ddalfa, a pha amodau mechniaeth perthnasol sydd wedi eu gosod.

Os ydych yn ddioddefwr, rhoddir yr wybodaeth hon i chi o fewn un i bum diwrnod gwaith yn dibynnu ar y sefyllfa. Dylech edrych ar God y Dioddefwyr i gael mwy o wybodaeth am hyn.

Byddwch yn cael enw a manylion cyswllt Swyddog Gofal Tystion (neu mewn rhai achosion swyddog o'r heddlu) a'r swyddog hwn fydd eich pwynt cyswllt ar gyfer unrhyw ymholiadau neu bryderon a fydd gennych.

Bydd tystion dros yr amddiffyniad yn cael eu diweddarau o'r cynnydd gan gyfreithwyr yr amddiffyniad.

Safon 8: Asesiad anghenion dilynol

Os ydych yn dyst dros yr erlyniad, mae eich cyswllt cyntaf â'ch Uned Gofal Tystion lleol ar ôl y gwrandawriad cyntaf yn y llys yn gyfle da iddynt weld a ydych yn dyst bregus neud dan fygythiad neu ag anghenion cymorth penodol. Hefyd bydd yr Uned Gofal Tystion yn dweud wrthyich sut i gysylltu â hwy yn y dyfodol os bydd gennych unrhyw bryderon ynglŷn â mynychu'r llys neu roi tystiolaeth.

Os ydych wedi eich nodi'n dyst bregus neu dan fygythiad, neu os oes gennych unrhyw anghenion cymorth penodol, bydd yr Uned Gofal Tystion yn cynnig asesiad anghenion llawn i drafod eich pryderon ynglŷn â mynychu'r llys. Gallai hyn gynnwys unrhyw ofnau ynglŷn â'ch diogelwch ac a ddylech wneud cais am unrhyw fesurau arbennig i'ch helpu i roi eich tystiolaeth orau yn y llys (gweler yr adran 'Mesurau Arbennig').

Os ydych yn dyst dros yr amddiffyniad, bydd cyfreithiwr yr amddiffyniad yn ceisio darparu cymorth a gwybodaeth debyg i chi.

Ar ôl i chi gael asesiad anghenion, os ystyriwch y gallech elwa ar fesurau arbennig, bydd naill ai gyfreithwyr yr erlyniad neu'r

amddiffyniad yn gyfrifol am wneud cais prydlon i'r llys am fesurau arbennig os yw'n briodol. Ym mhob achos, bydd y llys yn penderfynu os a pha fesurau sy'n briodol.

Peidiwch â bod ag ofn rhoi gwybodaeth bersonol a allai helpu'r llys i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer eich anghenion, er enghraifft, os ydych yn drwm eich clyw neu os oes angen seibiant yn aml arnoch.

Safon 9: Pennu dyddiad y treial

Wrth bennu dyddiad y treial neu os caiff yr achos ei ohirio, bydd cyfreithiwr yr erlyniad neu'r amddiffyniad yn gofyn i'r llys geisio trefnu dyddiad sy'n gyfleus i chi fynychu'r llys ac yna byddant yn rhoi gwybod i chi pryd bydd y treial yn cael ei gynnal.

Os cynhelir eich achos yn y llys ynadon, byd y treial yn cael ei drefnu ar ddyddiad penodol. Os cynhelir eich achos yn Llys y Goron, bydd y treial yn cael ei drefnu ar gyfer wythnos/pythefnos benodol (mae'r dyddiad yn cael ei gynnwys ar y 'rhestr rybudd') Yn yr achos hwn, bydd yr Uned Gofal Tystion neu gyfreithiwr yr amddiffyniad yn rhoi gwybod y dyddiad cyn y cynhelir y treial. Ond, os ydych yn dyst bregus neu dan fygythiad, neu'n dyst i drosedd difrifol, bydd dyddiad y treial ar ddiwrnod penodol.

Os ydych yn dyst bregus neu dan fygythiad, bydd cyfreithiwr yr erlyniad neu'r amddiffyniad yn gofyn i'r llys roi blaenoriaeth i'r achos wrth bennu amseroedd a dyddiadau gwrandawriadau. Gwneir hyn i leihau unrhyw oedi cyn y treial a lleihau amseroedd aros ar ddiwrnod y treial.

Bydd pawb sy'n ymwneud â'ch achos yn gwneud pob ymdrech i sicrhau y gofynnir i chi fynychu'r llys yn unig ar y diwrnod(au) y mae angen i chi roi tystiolaeth. Cewch wybod yr amser y dylech geisio cyrraedd y llys rhag bod unrhyw aros diangen.

Efallai bydd eich cyflogwr neu aelod o'ch teulu'n gyndyn o adael i chi fod ar gael i fynychu'r llys. Os bydd hyn yn digwydd, gellir gwneud cais gan gyfreithiwr yr erlyniad neu'r amddiffyniad i'r llys godi gŵys i dystio, y gallwch wedyn ei ddefnyddio i ddangos bod yn rhaid i chi fynychu. Gellir defnyddio gŵys i dystio hefyd os yw'r tystion eu hunain yn amharod i roi tystiolaeth.

Mynd i'r llys

Safon 10: Cymorth yn y llys – Gwasanaeth Tystion

Fel tyst dros yr erlyniad neu'r amddiffyniad sy'n mynychu'r llys, gallwch gael cymorth a chefnogaeth am ddim gan y Gwasanaeth Tystion, sydd â staff a gwirfoddolwyr ym mhob Llys y Goron a llysoedd ynadon yng Nghymru a Lloegr. Gall yr erlyniad neu'r amddiffyniad hefyd drefnu bod cymorth arall ar gael i chi, gyda chaniatâd y llys. Gallai hyn gynnwys cymorth gyda threfniadau i chi ymddangos ym mlwch y tystion neu yn yr ystafell lle defnyddnir dolen deledu fyw.

Bydd y Gwasanaeth Tystion yn cynnig cymorth ymarferol ac emosiynol trwy:

- darparu gwybodaeth am drefn a chynllun y llys.
- cynnig unrhyw gymorth ymarferol sydd ei angen arnoch yn y llys e.e. cymorth i lenwi ffurflenni costau.
- ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych neu eich cyfeirio at rywun sy'n gallu eu hateb.
- eich cynorthwyo i ymdopi ag unrhyw bryderon sydd gennych ynglŷn ag ymddangos yn y llys.

Gall y Gwasanaeth Tystion hefyd fynd gyda chi i ystafell y llys neu'r ystafell lle mae'r ddolen deledu fyw, os caniateir hynny gan y llys, tra byddwch yn rhoi tystiolaeth.

Mae'r Gwasanaeth Tystion yn wasanaeth rhad a diduedd ac ni fydd yn cynnig unrhyw farn ar yr achos, nac yn trafod yr achos na'r dystiolaeth cyn y treial nac yn cynnig cyngor cyfreithiol.

Gall yr heddlu, yr Uned Gofal Tystion neu gyfreithiwr yr amddiffyniad roi manylion cyswllt y Gwasanaeth Tystion i chi.

- ddarparu gwasanaeth annibynnol, diduedd a chyfrinachol ac yn eich trin â pharch a dealltwriaeth.

Uned Gofal Tystion

Unedau sydd wedi eu sefydlu trwy Gymru a Lloegr i ddarparu gwybodaeth a chymorth i ddiodefwyr a thystion mewn achosion sy'n mynd trwy'r system cyfiawnder troseddol. Bydd y cymorth a'r wybodaeth wedi eu teilwra ar sail anghenion y tystion unigol.

Gwasanaeth Tystion

Gwasanaeth cenedlaethol sy'n cynnig cymorth am ddim i dystion. Mae staff a gwirfoddolwyr y gwasanaeth yn bresennol ym mhob Llys y Goron a llysoedd ynadon yng Nghymru a Lloegr.

Gwŷs Tystion

Gorchymyn i roi tystiolaeth gerbron llys sy'n cael ei gyflwyno fel arfer pan fo angen sicrhau presenoldeb tyst neu pan nad yw tyst yn fodlon gwneud hynny o'i ewyllys ei hun. Mae gwŷs fel arfer yn ymrwymol, sy'n golygu bod yn rhaid mynychu'r llys.

Safon 11: Gwybodaeth am y llys a phroses y llys

Bydd yr Uned Gofal Tystion (neu mewn rhai achosion yr heddlu), cyfreithwyr yr amddiffyniad, staff y llys neu'r Gwasanaeth Tystion naill ai'n rhoi gwybodaeth i'ch helpu i baratoi at fynychu'r llys neu'n dangos lle gallwch gael gafaél ar yr wybodaeth hon. Dylai hyn gynnwys:

- DVD *'Myndi'r Llys'* sy'n esbonio proses y llys. Gallwch hefyd gael copi gan y Gwasanaeth Tystion yn y llys yn ystod eich ymweliad cyn y treial, neu gallwch wylïo'r fideo ar-lein ar www.gov.uk/going-to-court-victim-witness;
- *'Pecyn Tystion Ifanc'* os ydych o dan 18 oed ac yn rhoi tystiolaeth yn y llys.
- Gwybodaeth am God y Dioddefwyr os ydych yn ddiodefwr yn yr achos.
- Gwybodaeth am leoliad y llys a chysylltiadau cludiant, y cymorth sydd ar gael yn y llys, y cyfleusterau sydd ar gael fel bwyd a diod, manau aros ar wahân a threfniadau i bobl ag anableddau.
- Y cyfle i ymweld â'r llys cyn y treial. Os yw'r barnwr neu'r Fainc wedi derbyn eich cais am fesur arbennig i roi tystiolaeth trwy'r ddolen deledu fyw, gallwch ymarfer sut i'w defnyddio yn ystod eich ymweliad.
- Y posibilrwydd o ddarparu seddau yn oriel gyhoeddus ystafell y llys i unrhyw un sy'n dod gyda chi. Ni fyddwch yn gallu eistedd yn yr oriel

gyhoeddus eich hun nes eich bod wedi rhoi eich tystiolaeth. Nid oes oriel mewn llysoedd ieuencid gan eu bod wedi eu cau i'r cyhoedd.

Yn y llys – ar ôl cyrraedd

Mae'n bwysig nad ydych yn siarad gyda thystion eraill am eich tystiolaeth chi neu eu tystiolaeth hwy yn ystod unrhyw gam.

Safon 12: Cyfleusterau'r llys a'r arwyddion

Pan fyddwch yn cyrraedd y llys, dylech weld:

- staff cwrtais a chymwynasgar y llys a staff y Gwasanaeth Tystion a fydd yn gwisgo bathodynau adnabod; arwyddion clir i'ch helpu chi i ddod o hyd i'ch ffordd o gwmpas yr adeilad; a derbynfa Gwasanaeth Tystion neu gefnogwr tystion arall gydag arwyddion clir tuag ato.
- Rhestr o achosion y gwrandewir arnynt y diwrnod hwnnw, toiledau hygyrch a glân; manau aros glân a chyfforddus; a manau lluniaeth (neu gall saff y llys ddweud wrthych ba drefniadau y gellir eu gwneud i gael lluniaeth).
- Manau glân a diogel (gyda bleindiau ar y ffenestri) a deunydd darllen cyffredinol neu deganau i blant.

Safon 13: Amseroedd aros a mesurau cefnogol

Cyn i chi fynd i mewn i ystafell y llys:

- os bydd amgylchiadau'n caniatáu, bydd cyfreithiwr yr erlyniad/ amddiffyniad neu ei gynrychiolydd yn cyflwyno ei hun i chi a bydd yn ateb unrhyw gwestiynau ymarferol sydd gennych.
 - bydd pawb sy'n ymwneud â'ch achos yn ceisio sicrhau nad oes raid i chi aros mwy na dwy awr yn y llys cyn rhoi tystiolaeth. Weithiau mae achosion o oedi na ellir eu hosgoi a chewch wybod os bydd hyn yn digwydd gan gynrychiolydd yr erlyniad/amddiffyniad, staff y llys neu'r Gwasanaeth Tystion, lle bynnag y bo'n bosibl. Argymhellir eich bod yn gwneud trefniadau rhag ofn y bydd unrhyw oedi (e.e. dod â rhywbeth i ddarllen gyda chi, gwneud trefniadau i ofalu am blant).
 - gwneir pob ymdrech i sicrhau y byddwch yn rhoi eich tystiolaeth yn brydlon os ydych yn dyst bregus neu dan fygythiad.
 - os gofynnwch, cewch wybodaeth gan y Gwasanaeth Tystion, ynglŷn â chynnydd eich achos (neu cewch wybod ganddynt sut i gael gafael ar yr wybodaeth hon). Os ydych yn ddiodefwr, mae gennych hawl i gael pwynt cyswllt penodol yn y llys er mwyn gallu gwybod beth sy'n digwydd yn yr achos tra mae'n cael ei gynnal.
- bydd yr erlyniad neu'r amddiffyniad yn gofyn i staff y llys ddarparu ar gyfer unrhyw anghenion arbennig sydd gennych oherwydd anabledd, cyflwr meddygol neu eich oed sy'n golygu y gallai fod angen cymorth arnoch i roi tystiolaeth.
 - Bydd cyfieithydd wedi ei achredu, Canolwr Cofrestredig, arwyddwr neu gynorthwywr arall ar gael naill ai gan gyfreithiwr yr erlyniad neu'r amddiffyniad os oes gennych unrhyw anghenion o ran iaith a chyfathrebu, ar yr amod bod yr angen hwn wedi ei nodi ymlaen llaw.

Safon 14: Diogelwch yn y llys

Mae swyddogion diogelwch y llys yn archwilio pawb sy'n defnyddio'r llys, yn cynnwys tystion, wrth ddod i mewn i adeilad y llys. Gallant ofyn i unrhyw un sy'n tarfu ar waith y llys neu sy'n bygwth diogelwch pobl eraill sy'n defnyddio'r llys adael yr adeilad.

Yn ogystal â hyn, os mynegwyd pryderon penodol i'r llys, bydd yr Heddlu, swyddogion diogelwch y llys a staff y llys yn sicrhau bod mesurau diogelwch priodol ar waith yn y llys ar gyfer tystion bregus neu dan fygythiad.

Pan ofynnir, byddant yn ceisio sicrhau bod y diffynnydd, tystion dros yr erlyniad a'r diffynnydd a'u teuluoedd a'u cefnogwyr yn cael eu cadw mewn manau ar wahân yn adeilad y llys. Os nad oes lle ar wahân ar gael, bydd trefniadau eraill yn cael eu hystyried. Os ydych yn dyst bregus neu dan fygythiad gallwch drefnu eich bod yn aros mewn lle ar wahân wrth ymyl y llys nes ei bod yn amser i chi roi tystiolaeth.

Os ydych yn ddiodefwr, gallwch ofyn i staff y llys os cewch chi fynd i mewn i adeilad y llys trwy fynedfa wahanol i'r diffynnydd a'i deulu a'i ffrindiau.

Yn y llys - ystafell y llys

Safon 15: Y blwch tystion

Cyn i'r tywysydd eich galw i'r ystafell llys a'ch arwain i'r blwch tystion, bydd yn gofyn sut hoffech chi addo dweud y gwir wrth roi tystiolaeth. Cewch ddefnyddio llyfr sanctaidd eich crefydd i addo eich bod yn dweud y gwir ('y llw') a bydd staff y llys yn sicrhau eu bod yn ei drin yn y modd cywir. Neu, os byddai'n well gennych, cewch ddewis 'cadarnhau', sef modd anghrefyddol o addo dweud y gwir. Gallwch hefyd ddewis darllen y llw eich hun oddi ar y cerdyn neu ei ailadrodd ar ôl y tywysydd.

YBydd disgwyl i chi roi eich enw yn y llys wrth roi tystiolaeth. Ni fydd barnwyr, ynadon na staff y GLITEM yn gofyn i chi ddatgelu eich cyfeiriad mewn llys agored oni bai ei fod yn berthnasol i'r achos.

Os nad ydych chi'n deall cwestiwn, neu os nad ydych chi'n teimlo'n dda neu os ydych yn arbennig o anhapus wrth roi tystiolaeth, dylech ddweud wrth y sawl sy'n gofyn y cwestiwn, y barnwr neu'r ynad. Gall y barnwr neu'r ynad adael i chi oedi a gorffwys cyn mynd ymlaen.

Os ydych yn rhoi tystiolaeth trwy ddolen fyw ac yn teimlo y bydd angen cymorth emosiynol arnoch wrth wneud hynny, gallwch ofyn ymlaen llaw i gael cynorthwydd tystion hyfforddedig. Yna bydd y llys yn penderfynu a ddylid caniatáu hyn ai peidio, a chewch wybod y canlyniad.

Ar ôl i chi roi tystiolaeth, bydd y barnwr neu'r Fainc, staff y llys neu'r Gwasanaeth Tystion yn diolch i chi am eich cyfraniad i'r achos llys a chewch wybod pryd y gallwch adael y llys. Cewch aros yn adeilad y llys a gwyllo gweddill yr achos o'r oriel gyhoeddus os ydych chi'n 14 oed neu'n hŷn.

Safon 16: Croesholi

Mae croesholi'n elfen hanfodol o dreial teg. Mae hyn yn cynnwys cael ei holi gan gyfreithiwr yr erlyniad neu'r amddiffyniad i brofi a yw'r dystiolaeth yr ydych wedi'i rhoi yn gywir a gonest. Efallai y bydd cyfreithwyr yn cynnig fersiwn arall o ddigwyddiad i chi er mwyn cael eich sylwadau. Caiff diffynyddion gynrychioli'u hunain ac mae ganddynt hawl, ac eithrio mewn rhai achosion fel achosion cam-drin rhywiol, i'ch croesholi.

Gall cyfreithiwr yr erlyniad neu'r amddiffyniad ofyn i'r llys ymyrryd os ystyrir bod y cwestiynau a ofynnir i chi wrth eich croesholi'n afresymol, er enghraifft os yw'n annheg, yn dramgwyddus neu'n ormesol, neu os nad yw'n berthnasol o gwbl i'r achos neu'r materion sy'n cael eu hystyried.

Os caniatawyd cymorth Canolwr Cofrestredig i chi, ei rôl ef neu hi yw sicrhau eich bod yn gallu deall y

cwestiynau a ofynnir i chi a bod y llys yn deall eich atebion.

Efallai bydd yr holwr yn dweud neu'n awgrymu rhywbeth sydd yn anghywir yn eich barn chi. Os bydd hyn yn digwydd, dylech ddweud yn glir eich bod yn anghytuno. Eich rôl fel tyst yw dweud y gwir.

Ar ôl y treial

Safon 17: Cael gwybod canlyniad y treial

Os ydych yn dyst dros yr erlyniad, bydd yr Uned Gofal Tystion (neu mewn rhai achosion yr heddlu) yn rhoi gwybod i chi beth yw canlyniad eich achos, ac os yw'n berthnasol, beth yw'r ddedfryd. Bydd hyn yn digwydd erbyn diwedd y diwrnod gwaith y maent yn derbyn yr wybodaeth hon gan y llys.

Hefyd byddant yn esbonio i chi beth mae'r ddedfryd yn ei olygu neu byddant yn eich cyfeirio at sefydliad priodol os oes gennych ragor o gwestiynau.

Os ydych yn dyst dros yr amddiffyniad, gallwch gysylltu â'r llys i gael gwybod canlyniad eich achos neu gallwch gysylltu â chyfreithiwr yr amddiffyniad a fydd yn darparu gwybodaeth os yw ei reolau proffesiynol yn caniatáu hynny.

Safon 18: Apeliadau

Os nad yw'r amddiffyniad (ac mewn achosion cyfyngedig yr erlyniad) yn hapus â phenderfyniad y llys, gall apelio neu ofyn am adolygu dedfryd/collfarn mewn uwch lys. Yn dibynnu ar natur yr achos, weithiau bydd angen i dystion

roi tystiolaeth yn ystod y broses apêl. Gallant ddisgwyl yr un safonau gofal ag yr amlinellir yn y Siarter hon/

Os ydych yn dyst dros yr erlyniad, bydd eich Uned Gofal Tystion (neu mewn rhai achosion, yr heddlu) yn rhoi gwybod i chi am unrhyw apêl yn erbyn collfarn neu ddedfryd ac yn rhoi gwybod i chi beth fydd canlyniad yr apêl. Os ydych yn dyst dros yr amddiffyniad, bydd cyfreithwyr yr amddiffyniad yn ceisio rhoi gwybod i chi am unrhyw apêl os yw ei reolau proffesiynol yn caniatáu hynny.

Os ydych yn teimlo bod dedfryd a roddwyd yn Llys y Goron yn isel iawn (neu'n rhy drugarog), gallwch ofyn i'r Atwrnai Cyffredinol edrych ar y ddedfryd, o fewn 28 diwrnod i'r ddedfryd. Yna gall yr Atwrnai neu'r Cyfreithiwr Cyffredinol ofyn i'r Llys Apêl ystyried y ddedfryd, a gall benderfynu cadw'r ddedfryd, ei chynyddu, neu gyflwyno cyfarwyddyd ar gyfer achosion yn y dyfodol.

Safon 19: Cymorth ar ôl y treial

Bydd y Gwasanaeth Tystion, neu os yw'n berthnasol, eich cefnogwr cyn y treial yn rhoi cyfle i chi drafod yr achos ar iddo ddod i ben ac yn cynnig mwy o gymorth neu wybodaeth. Mae hyn yn cynnwys cyngor ynglŷn â pha gymorth sydd ar gael os ydych yn creu eich bod mewn risg o gael eich bygwth ar ôl ymddangos fel tyst.

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar ôl y treial, bydd yr Uned Gofal Tystion, yr heddlu, y Gwasanaeth Tystion neu gefnogwyr tystion eraill yn eich cyfeirio at asiantaethau cymorth perthnasol.

Safon 20: Hawliau treuliau

Bydd y Gwasanaeth Tystion neu gyfreithiwr yr amddiffyniad yn rhoi gwybod i chi beth yw'r drefn ar gyfer hawlio eich treuliau gan Wasanaeth Erlyn y Goron a gall eich helpu i lenwi'r ffurflen gostau.

Yn y rhan fwyaf o achosion, gallwch hawlio treuliau am gostau teithio yn ôl a blaen i'r llys. Mae hefyd yn bosibl hawlio treuliau am golli unrhyw enillion wrth fynd i'r llys i roi tystiolaeth. Fodd bynnag, os ydych chi'n dyst i'r amddiffyniad sy'n rhoi tystiolaeth fel tyst i gymeriad, ni fyddwch yn gallu hawlio treuliau oni bai fod y llys yn gwneud gorchymyn penodol.

Os nad ydych yn gallu mynd yn ôl a blaen i'r llys am resymau ariannol, dylech ddweud wrth yr Uned Gofal Tystion cyn gynted â phosibl ymlaen llaw. Bydd yn rhoi gwybod i Wasanaeth Erlyn y Goron a bydd yn gallu trefnu talu neu anfon eich costau teithio atoch. Os ydych yn dyst dros yr amddiffyniad dylech roi gwybod i gyfreithiwr yr amddiffyniad. Os cewch wŷs, cewch gynnig 'arian teithio' i sicrhau eich bod yn gallu mynychu.

Safon 21: Cwynion

Dylai'r holl ddarparwyr gwasanaeth sydd wedi eu cynnwys yn y Siarter hon, lle bynnag y bo'n bosibl, gydymffurfio â'i safonau. Fodd bynnag, os ydych yn anhapus â lefel y gwasanaeth yr ydych wedi ei derbyn gan unrhyw ddarparwr gwasanaeth gallwch wneud cwyn trwy drefn gwyno fewnol y darparwr gwasanaeth hwnnw. Nid yw hyn yn ymestyn i gynnwys unrhyw gŵyn am y canlyniad barnwrol, y dyfarniad na'r ddedfryd.

Os ydych yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud hynny, dylech drafod eich cwyn gyda'r person yr ydych wedi bod yn delio ag ef/hi yn y darparwr gwasanaeth hwnnw. Os nad ydych yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud hynny neu os ydych yn dal yn anfodlon, gallwch wneud cwyn trwy drefn gwyno fewnol y darparwr gwasanaeth hwnnw. Os byddwch yn anfon eich cwyn at y darparwr gwasanaeth anghywir, bydd y darparwr hwnnw'n ailgyfeirio eich cwyn at y darparwr gwasanaeth perthnasol ac yn rhoi gwybod i chi eu bod wedi gwneud hynny

Bydd darparwyr gwasanaeth bob amser yn:

- dweud yn glir sut i wneud cwyn.
- trin eich cwyn yn ddifrifol.
- ceisio delio â'ch cwyn cyn gynted â phosibl.
- dweud wrthynt sut i barhau â chwyn os nad ydych yn fodlon â chanlyniad yr ymchwiliad cychwynnol.
- ymateb i'ch cwyn mewn ffordd glir.

Os ydych yn teimlo nad yw eich cwyn wedi cael sylw priodol, gallwch ei chyfeirio at awdurdod uwch. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn golygu mynd at Ombwdsmon y Senedd neu'r Gwasanaeth Iechyd trwy eich Aelod Seneddol. Mae gan yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron eu cyrff gwyno annibynno.

Os ydych yn ddiodefwr, mae proses gwyno penodol, sy'n cael ei hamlinellu yng Nghod y Dioddefwyr .

Geirfa Termau Defnyddiol

Mae'r adran hon yn rhoi esboniad o'r prif eiriau neu'r ymadroddion a geir yn y Siarter hon.

Rhyddfarn

Cyfarwyddyd ffurfiol nad yw'r sawl a gyhuddwyd yn euog o'r trosedd.

Gohirio

Atal gwrandawriad achos dros dro ar orchymyn llys.

Cadarnhau

Y datganiad gan dyst nad oes ganddo ef neu hi gred grefyddol fod y dystiolaeth y mae'n ei rhoi yn wir.

Apêl

Proses gyfreithiol lle deuir ag achos gerbron llys uwch i adolygu penderfyniad llys is.

Mechniaeth (ac amodau mechniaeth)

Rhyddhau rhywun sydd dan amheuaeth o'r ddalfa, tan ei ymddangosiad nesaf yn y llys. Weithiau bydd hyn yn amodol ar roi ernes a/neu ar gydymffurfio ag amodau mechniaeth penodol, fel adrodd yn gyson i orsaf yr heddlu.

Mainc

Grŵp o ynadon sy'n gwrando ar achosion yn y llys ynadon.

Tystiolaeth Orau

Tystiolaeth a roddir gan dyst hyd eithaf ei allu.

Cyhuddiad

Cyhuddiad ffurfiol yn erbyn person(au) gan y wladwriaeth.

Adran Droseddol y Llys Apêl

Llys sy'n gwrando ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wnaed mewn achosion troseddol yn Llys y Goron.

Collfarn

Pan fo troseddwr wedi pledio'n euog neu wedi ei gael yn euog o drosedd mewn llys, dywedir fod collfarn yn ei erbyn ef neu hi.

Croesholi

Y broses lle mae cyfreithiwr yr erlyniad neu'r amddiffyniad yn herio ar lafar y dystiolaeth a roddwyd gan dyst mewn llys.

Gwasanaeth Erlyn y Goron

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gyfrifol am erlyn achosion troseddol yr ymchwilir iddynt gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr.

Llys y Goron

Llys mae achosion troseddol yn cael eu cyflwyno gerbron barnwr a rheithgor. Mae Llys y Goron hefyd yn gweithredu fel llys apêl ar gyfer achosion y gwrandewir arnynt ac y delir â hwy gan lysoedd ynadon ac ieuencid.

Diffynnydd

Person sy'n cael ei gyhuddo o gyflawni trosedd.

Cyfreithiwr

Term cyffredin a ddefnyddir yn Siarter y Tystion i ddisgrifio bargyfreithwyr a chyfreithwyr. Mae cyfreithwyr yr erlyniad yn cyflwyno'r achos yn erbyn y diffynnydd(diffynyddion) tra bod cyfreithwyr yr amddiffyniad yn cyflwyno buddiannau'r diffynnydd(diffynyddion).

Llys Ynadon

Llys lle cynhelir gwrandawiadau o achosion troseddol llai difrifol gan ynadon neu farnwyr rhanbarth, heb reithgor.

Asesiad Anghenion

Gwerthusiad a wneir gan ddarparwyr gwasanaeth i benderfynu pa fath o gymorth y gallai fod ei angen ar ddiodefwr ar ôl trosedd. Gellir defnyddio'r broses hon hefyd i nodi unrhyw Fesurau Arbennig y gallai fod eu hangen ar ddiodefwr os yw'n mynd i roi tystiolaeth yn y llys.

Llw

Addewid ar lafar gan rywun â chredoau crefyddol i ddweud y gwir.

Canolwr Cofrestredig

Rôl canolwr cofrestredig yw hwyluso'r broses gyfathrebu yn y cam ymchwilio a/neu yn y llys mewn achos troseddol. Mae'n helpu tystion i ddeall y cwestiynau a ofynnir iddynt a chyfleu eu hatebion yn glir.

Maent yn cael eu hachredu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i helpu tystion bregus i roi eu tystiolaeth orau. Gall y canolwr esbonio'r cwestiynau a'r atebion cyhyd ag y mae angen i helpu'r tyst ond heb newid y dystiolaeth yn ei hanfod. Nid yw Canolwyr Cofrestredig yn ymchwilyr ac nid yw eu rôl yr un fath ag oedolion priodol, cefnogwyr tystion na thystion arbenigol.

Mesurau arbennig

Y mesurau amrywiol y gall llys eu gorchymyn er mwyn helpu tystion bregus neu dan fygythiad i roi eu tystiolaeth orau yn y llys fel y nodir o dan adrannau 16 i 30 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuencid a Thystiolaeth Droseddol 1999. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys dolenni fideo byw, datganiadau sy'n cael eu recordio ar fideo, sgriniau o gwmpas y blwch tystion a chymorth i gyfathrebu, yn cynnwys defnyddio canolwr. Ceir rhestr lawn gydag glurhad ar dudalen 4.

Datganiad

Adroddiad ysgrifenedig neu ar fideo gan dyst am ffeithiau neu fanylion trosedd neu ddigwyddiad.

Tyst bregus neu dan fygythiad
Yn Nedd Cyfiawnder Ieuencid a Thystiolaeth Droseddol 1999 diffinnir tystion 'bregus' fel plant a phobl ifanc o dan 18 oed ac unrhyw berson sy'n dioddef o analluogrwydd meddyliol neu gorfforol ac o ganlyniad sy'n llai abl i roi tystiolaeth; diffinnir tystion 'dan fygythiad' fel diodefwyr troseddau rhyw y mae arnynt ofn rhoi tystiolaeth neu sy'n pryderu am roi tystiolaeth, a allai ostwng safon y dystiolaeth honno.

Y Rhestr Rybudd

Rhestr o achosion sy'n debygol o gael gwrandawriad yn y dyfodol agos, ond nid yw union ddyddiad y treial yn cael ei bennu tan y diwrnod cyn y cynhelir y treial. Os na chynhelir y treial yn ystod yr wythnos honno, am ba reswm bynnag, naill ai rhoddir dyddiad penodol iddo neu bydd yn cael ei gynnwys mewn rhestr rybudd newydd.